Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Goodwin Partnership - Porth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 20 Medi 2023

Dyddiad cyhoeddi: 21 Rhagfyr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-83577-303-1



© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 9

- Ansawdd Profiad y Claf .......... 9
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 13
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 19

4. Y camau nesaf .......... 23

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .......... 24

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 25

Atodiad C – Cynllun gwella .......... 26

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Goodwin Partnership – Porth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 20 Medi 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 24 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol.

Nodwyd bod y staff yn gweithio'n galed i drin eu cleifion â charedigrwydd, urddas a pharch drwy gydol yr arolygiad.

Nodwyd gennym fod y practis yn ymdrechu i ddarparu ar gyfer triniaeth frys heb ei threfnu ar yr un diwrnod a dywedodd y cleifion ei bod yn ‘hawdd iawn’ neu’n ‘eithaf hawdd’ cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Gwelsom fod amrywiaeth eang o wybodaeth ym mhob rhan o'r practis a dywedodd y cleifion eu bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth sydd ar gael ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried sut y gellir gwneud gwybodaeth ar gael mewn fformatau sy'n ystyried anghenion cleifion ag anawsterau darllen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Nododd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn ‘dda iawn’
- Ymdrechion cadarnhaol i hyrwyddo'r 'Cynnig rhagweithiol' i gleifion sy'n dymuno siarad Cymraeg
- Cymryd camau cadarnhaol ar adborth gan y cleifion gyda 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' wedi'i harddangos ar sgriniau gwybodaeth.

## Darparu  Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da, yn lân ac yn daclus ac wedi'i addurno i safon uchel.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau gwaith.

Nodwyd gennym fod cydymffurfiaeth dda â rhagofalon diogelwch tân ond gwelsom fod angen ail-leoli arwydd allanfa dân er mwyn rhoi gwell canllawiau i'r cleifion ar wagio'r adeilad pe bai tân.

Roedd y cofnodion deintyddol yn fanwl ac yn hawdd eu dilyn, gyda rhai mân feysydd i'w gwella.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rydym yn argymell y dylai'r rheolwr cofrestredig leoli'r arwyddion allanfa dân fel eu bod yn weladwy pan fo drws y feddygfa ar gau.
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion a phrofion sgrinio canser y geg sy'n cael eu cynnal eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Caiff y ffigurau ar gyfer y cleifion sydd wedi 'methu apwyntiad' eu dadansoddi i nodi materion diogelu posibl.
- System ddihalogi dda ar waith â nyrs dihalogi dynodedig
- Hysbysfwrdd diogelu yn gwneud yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael yn hawdd.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y rheolwr cofrestredig yn weladwy, gwelsom linellau adrodd clir ar gyfer y staff a phractis a oedd yn cael ei redeg yn dda. Gwelsom fod y staff yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn eu rolau gyda thystiolaeth o arfarniadau rheolaidd.

Gwelsom fod proses sefydlu dda ar waith gyda rhestrau gwirio a lluniau i atgyfnerthu adnabyddiaeth o'r cyfarpar a ddefnyddir a dealltwriaeth o'r prosesau. Roedd lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant staff a goblygiadau proffesiynol yn dda iawn.

Gwelsom dystiolaeth o broses gwyno addas yn unol â pholisi'r practis.

Er y gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau, roedd y practis y cael ei reoli'n dda ar y cyfan.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amrywiaeth dda o hyfforddiant ar gyfer staff a chydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol.

- Roedd amrywiaeth o bolisïau ar gael yn hwylus i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau
- Amrywiaeth gynhwysfawr o archwiliadau gyda'r nod o wella'r safonau'n barhaus.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r 24 o ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn.'

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

> *"Practis da iawn, yn deall fy anghenion ac yn gwneud addasiadau ar fy nghyfer. Staff gwych."*

> *"Rwyf wedi bod yn dod i'r practis hwn ers dros 40 o flynyddoedd. Mae pawb wedi bod yn wych bob amser."*

### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

**Hybu Iechyd**
Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael cyngor hybu iechyd wrth gael eu gweld gan y deintyddion neu weithwyr deintyddol proffesiynol eraill a oedd yn gweithio yn y practis. Gwelsom doreth o wybodaeth i gleifion ym mhob rhan o'r practis, gan gynnwys y polisi cwyno, canllawiau ar roi'r gorau i smygu a gwybodaeth am belydr-x. Gwelsom fod gwybodaeth am gostau hefyd yn cael ei harddangos. Mae'r practis hefyd yn defnyddio sgriniau digidol mewn ardaloedd aros i ddarparu gwybodaeth ychwanegol sy'n rhedeg yn barhaus.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei ddeall. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym hefyd fod y staff wedi darparu cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gwelsom fod arwyddion yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle. Roedd hyn yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

**Gofal Urddasol a Pharchus**
Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion â charedigrwydd a pharch.

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau pan oedd deintyddion yn gweld cleifion, a oedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwelsom hefyd bod bleinds ar y ffenestri yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau preifatrwydd.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

Roedd desg y dderbynfa ar wahân i ystafell aros y cleifion sy'n rhoi rhywfaint o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd staff y dderbynfa yn gwybod bod angen iddynt gynnal cyfrinachedd y cleifion wrth ddelio â nhw, gan gynnwys wrth gynnal sgyrsiau dros y ffôn. Dywedwyd wrthym y byddai deintyddfa segur yn cael ei defnyddio ar gyfer trafodaethau cyfrinachol neu sensitif.

Roedd egwyddorion moesegol ymarfer craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn glir yn yr ardaloedd aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**
Dywedodd pob ymatebwr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau/buddiannau a oedd yn gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym ei fod yn teimlo eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr hoffent mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

## Amserol

**Gofal Amserol**
Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael gwybod pe byddai oedi yn amser eu hapwyntiad. Byddai'r cleifion yn cael cynnig aildrefnu eu hapwyntiad os oeddent yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r practis ar hyn o bryd yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn, negeseuon ar y wefan neu Facebook ac yn defnyddio system awtomatig sy'n anfon e-bost cadarnhad ac e-byst atgoffa'r cleifion o'u hapwyntiadau.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn annog cleifion sydd angen gofal deintyddol brys i gysylltu â nhw cyn 11:00am a bod apwyntiadau brys gwag yn cael eu hamserlennu drwy gydol y dydd. Dywedwyd wrthym y byddai ymdrechion yn dal i gael eu gwneud i ddarparu ar gyfer cleifion os byddai hynny ar ôl y terfyn amser. Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio system brysbennu i flaenoriaethu cleifion ac yn ceisio trin pob achos brys ar yr un diwrnod.

Dywedwyd wrthym fod cleifion fel arfer yn aros tua dau fis neu fwy rhwng bob apwyntiad triniaeth yn dibynnu ar y difrifoldeb ac argaeledd y deintydd. Fodd bynnag, os byddai claf yn hapus i weld deintydd gwahanol byddai'r cyfnod aros hwn yn lleihau i'r wythnos ganlynol.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cadw slotiau rhydd ar gyfer apwyntiadau ar ôl ysgol ac ar ddiwedd y dydd ar ddydd Gwener er mwyn sicrhau y gall cleifion gael triniaeth ar adeg sy'n gyfleus iddynt.

Roedd oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn glir a gellid eu gweld o du allan i'r safle. Roedd y rhif ffôn cyswllt i'w ddefnyddio gan y cleifion pe byddai arnynt angen gofal a thriniaeth brys y tu allan i oriau i'w weld yn glir hefyd.

Dywedodd pob un a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod yn ‘hawdd iawn’ neu'n ‘eithaf hawdd’ cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Roedd pob un o'r ymatebwyr o'r farn eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn y dylwn i ei wneud os bydd haint / argyfwng, a gyda phwy y dylwn i gysylltu.

## Teg

**Cyfathrebu ac Iaith**
Nodwyd gennym fod ychydig o wybodaeth ysgrifenedig wedi'i harddangos yn y practis ac ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a dywedwyd wrthym fod y practis wrthi'n cyfieithu dogfennau gan gynnwys y daflen wybodaeth i gleifion er mwyn datblygu'r ddarpariaeth hon ymhellach. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd taflenni gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill, megis hawdd eu deall neu ffont mawr, a oedd yn ystyried anghenion y cleifion ag anawsterau darllen.

**Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am ffordd y gall y practis sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion ag anawsterau darllen.**

Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff yn y practis yn gallu siarad Cymraeg ac yn gallu rhoi gofal yn Gymraeg os gofynnir am hynny. Yn ogystal, mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi mynediad at wasanaethau cyfieithu. Dywedwyd wrthym fod bathodynnau 'Iaith Gwaith' ar gael, ond dim ond un aelod o'r staff oedd yn ddigon hyderus i'w wisgo.

Dywedodd y person cyfrifol wrthym ei fod yn dysgu Cymraeg ar hyn o bryd ac yn annog staff i ddysgu hefyd. Dywedwyd wrthym eu bod wedi cael cymorth gan y bwrdd iechyd lleol i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Gwelsom fod system dolen sain ar waith er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed.

**Hawliau a Chydraddoldeb**

Gwelsom fod gofal a thriniaeth ddeintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith yr oedd pob aelod o'r staff wedi'i ddarllen ac yn cytuno ar ei gynnwys. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi darparu hyfforddiant ar ddatrys gwrthdaro a gwahaniaethu gyda chymorth ychwanegol i'r dderbynfa. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cymryd camau cadarnhaol yn erbyn sylwadau gwahaniaethol.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis.

Gwelsom fod ramp o'r stryd, a mynediad gwastad i'r safle'r practis gyda drysau llydan o'r fynedfa i ardal y dderbynfa a meddygfa 3, gan ddarpari triniaeth i gleifion â phroblemau symudedd.
Nodwyd gennym fod toiled hygyrch i gleifion ar y llawr gwaelod.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod o'r farn bod yr adeilad yn hygyrch.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli Risg**
Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da gydag ystafelloedd triniaeth mawr a oedd wedi'u goleuo'n dda a'u haerdymheru. Mae'r deintyddfeydd wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Y tu mewn i'r safle, roedd yr amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon dda. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi ar gynnal a chadw'r adeiladau. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr cofrestredig a luniodd bolisi cynnal a chadw ar gyfer yr adeiladau ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd polisi parhad busnes ar waith, gyda rhestr o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu'r ystod lawn o wasanaethau yn sgil digwyddiadau fel cyfarpar yn methu, llifogydd neu os bydd y system yn methu. Roedd manylion cyswllt ar gyfer y tîm ymateb mewn argyfwng dynodedig a rhestr o rifau cyswllt mewn argyfwng yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd y swyddfa.

Roedd yr ardaloedd i gleifion yn daclus ac yn rhydd o beryglon. Gwelsom fod cyfleusterau ar gael i'r staff newid mewn preifatrwydd.

Gwelsom fod poster iechyd a diogelwch ar waith ac roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy yn cael ei arddangos yn glir i'r staff ei weld.

Gwelsom fod asesiad risg tân wedi'i gwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf a bod pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Roedd gwiriadau o gyfarpar diogelwch tân yn cael eu cynnal yn wythnosol ac ymarferion tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd. Gwelsom fod contract cynnal a chadw cyfarpar tân cyfredol ar waith, a bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod allanfeydd tân heb ddim yn eu rhwystro ac arwyddion gwagio'r adeilad yn cael eu harddangos drwy'r safle. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod yr arwydd ar gyfer yr allanfa dân ar y llawr cyntaf wedi'i leoli y tu mewn i'r ddeintyddfa ac felly roedd ond yn weladwy pan oedd y drws ar agor.

**Rydym yn argymell y dylai'r rheolwr cofrestredig leoli'r arwyddion allanfa dân fel eu bod yn weladwy pan fo drws y feddygfa ar gau.**

Gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus ar waith.

**Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**
Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi. Gwelsom fod amserlen lanhau ar waith i gefnogi arferion glanhau effeithiol.

Gwelsom fod yr ystafell aros a'r deintyddfeydd yn lân a'u bod wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol. Roedd pob ymatebwr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion o'r farn bod y lleoliad yn lân iawn ac roedd y mwyafrif yn teimlo bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn amlwg.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y toiledau. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael yn hwylus i'r staff a'r cleifion ei ddefnyddio. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i'r staff.

Roedd ystafell ddihalogi benodol gyda system briodol ar waith er mwyn cludo'r offer a oedd wedi'u defnyddio'n ddiogel o'r deintyddfeydd i'r ystafell ddihalogi. Cafodd y trefniadau ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol amldro eu disgrifio a'u dangos. Gwelsom fod y cofnodlyfrau wedi'u cwblhau i ddangos bod gwiriadau priodol o'r cyfarpar dihalogi wedi'u cynnal.

Gwelsom fod yr archwiliad atal a rheoli heintiau diweddaraf wedi'i gynnal o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod y gwastraff a gynhyrchir gan y practis yn cael ei storio'n ddiogel mewn cynwysyddion priodol cyn iddo gael ei gasglu. Gwelsom hefyd fod contract cyfredol ar waith i drosglwyddo gwastraff yn ddiogel o'r practis.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith mewn perthynas â sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Roedd asesiad risg COSHH addas ar waith ar gyfer pob sylwedd peryglus i iechyd.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

**Rheoli Meddyginiaethau**
Gwelsom fod polisi cyfredol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis. Nodwyd gennym nad oedd unrhyw feddyginiaethau'n cael eu storio yn y practis, heblaw cyffuriau brys. Roedd proses addas ar waith ar gyfer cael gwared â chyffuriau brys sydd wedi mynd heibio eu dyddiad. Gwelsom fod unrhyw feddyginiaethau sy'n cael eu rhoi yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Cawsom wybod y byddai digwyddiadau niweidiol mewn perthynas â meddyginiaethau yn cael eu cofnodi gan staff y practis gan ddefnyddio'r cynllun Cerdyn Melyn.

Gwelsom fod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ar gyfer ymateb i argyfwng meddygol yn y practis. Cawsom wybod y gallai cleifion wneud cais amdano.

Gwnaethom arolygu cyfarpar a meddyginiaethau i'w defnyddio mewn argyfwng yn y practis. Gwelwyd bod y meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr. Roedd system addas ar waith ar gyfer gwirio stociau a nodi pryd y bydd angen cael meddyginiaethau newydd. Gwelsom hefyd fod cofnodion gwiriadau wedi'u cwblhau, a'u bod yn cadarnhau bod pob meddyginiaeth o fewn ei dyddiad defnyddio. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod dau o'r pum maint o orchuddion wyneb clir a argymhellwyd fel rhan o gyfarpar brys ar goll. Archebodd y rheolwr cofrestredig rai newydd ar adeg yr arolygiad.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth ar adeg yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn Atodiad A.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant dadebru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a adolygwyd gennym.

**Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwelsom fod polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â diogelu ac roedd manylion cyswllt perthnasol ar gyfer timau diogelu lleol ar gael i'r staff pe bai pryder. Caiff y ffigurau ar gyfer y cleifion sydd wedi 'methu apwyntiad' eu dadansoddi i nodi materion diogelu posibl. Gwelsom fod gan y practis fwrdd diogelu dynodedig yn y swyddfa a oedd yn cynnwys siart llif a rhestr o enwau cuswllt ar gyfer timau diogelu lleol a oedd yn golygu bod help a chyngor ar gael i'r staff pe bai ganddynt bryder diogelu.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ac roeddent yn wybodus am ddiogelu ac roedd pob uwch-aelod o'r staff wedi lawrlwytho ap Diogelu Cymru Gyfan i'w ffonau er mwyn sicrhau bod ganddynt yr arweiniad diweddaraf. Roedd gan y practis arweinydd diogelu ar waith.

**Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu gofal a thriniaeth ddeintyddol. Roedd y cyfarpar a welsom yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

Gwelsom fod y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X. Gwelsom hefyd ddogfennaeth a oedd yn dangos bod cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw ac wedi cael y profion gofynnol a bod asesiad risg ymbelydredd ar waith.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis, sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyfarpar pelydr-x, wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol a gwelsom dystiolaeth o hyn mewn sampl o ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros yn egluro'r risgiau a'r buddiannau o gael archwiliad pelydr-X. Gwelsom fod gwerthusiadau clinigol a chyfiawnhad ar gyfer pob archwiliad pelydr-X wedi'u nodi yng nghofion y cleifion. Dywedwyd wrthym nad oedd gofalwyr yn cael bod yn yr ystafell drin pan roedd pelydr-x yn cael eu cymryd.

## Effeithiol

**Gofal Effeithiol**
Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi'n addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis a bod canllawiau rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio rhestrau gwirio wedi'u hargymell er mwyn helpu i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar gynnal iechyd y geg da a chytunodd pob un ohonynt eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn i'w wneud os bydd haint neu argyfwng.

**Cofnodion y Cleifion**
Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol deg  claf. Gwelsom fod system briodol ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod cofnodion yn cael eu cadw am y cyfnod priodol yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd gan yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt ddynodyddion cleifion addas, fel enw a dyddiad geni'r claf, y rheswm dros fynychu a chofnodwyd hefyd y symptomau a ddisgrifiwyd gan gleifion. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen

mwy o fanylder ar gynllun triniaeth y cleifion mewn perthynas â'r driniaeth a ddarperir.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod mwy o fanylder yn cael ei gofnodi yn y cynlluniau triniaeth fel rhan o gofnodion y cleifion.**
Roedd pob cofnod a adolygwyd yn cynnwys yr hanes deintyddol blaenorol gan gynnwys defnydd o alcohol a thybaco lle y bo'n briodol. Nodwyd fod prosesau hybu iechyd y geg, fel cyngor ar roi'r gorau i smygu, wedi cael eu cofnodi.

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cynnwys system i sicrhau bod hanes meddygol yn cael ei wirio ym mhob ymgynghoriad. Cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC mai dyma oedd yr achos.

Gwelsom dystiolaeth o siartiau sylfaenol llawn, Archwiliadau Periodontol Sylfaenol, ac archwiliadau y tu allan i'r geg a'r tu mewn i'r geg. Er nad oedd tystiolaeth o archwiliadau meinweoedd meddal, nid oedd cofnodion cyson o brofion sgrinio canser y geg wedi cael eu cyflawni.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff profion sgrinio canser y geg eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion.**

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi egluro'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod eu hapwyntiad a bod y staff wedi ateb eu cwestiynau. Nodwyd gennym fod pob cofnod yn dangos y cafwyd cydsyniad ar sail gwybodaeth cyn eu triniaeth. Fodd bynnag dim ond ar gyfer tri chlaf y cofnodwyd dewis iaith y cleifion.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi yng nghofnodion cleifion.**

## Effeithlon

**Effeithlon**
Clywsom fod trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn gweithredu mewn ffordd effeithlon a oedd yn cynnal safon y gofal, gyda digon o glinigwyr ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu cyfeirio at hylenydd am driniaeth ac roedd rhai nyrsys wedi cael hyfforddiant ar ddyletswyddau estynedig megis triniaeth farnais fflworid.

Roedd y practis yn defnyddio system electronig i sicrhau bod trefniadau ar gyfer atgyfeirio i wasanaethau gofal iechyd eraill yn effeithiol a bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu.

Gwelsom fod y cyfleusterau a'r safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir a bod sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon gyda gofal deintyddol brys yn cael ei gynnal o amgylch apwyntiadau arferol wedi'u trefnu ymlaen llaw.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**
Mae'r practis yn un teuluol sy'n cael ei weithredu ganddynt. Roedd dau reolwr practis yn eu swyddi a oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Disgrifiwyd llinellau adrodd clir.

Cafodd y trefniadau addas eu disgrifio ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â thîm o staff y practis. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd staff a chyfathrebu ad hoc â'r staff drwy e-bost neu wyneb yn wyneb. Gwelsom fod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cymryd a'u darparu i'r staff sy'n absennol er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf mewn materion cysylltiedig â'r gwaith.

Gwnaethom gadarnhau bod amrywiaeth o bolisïau ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau. Roedd y sampl o bolisïau a welsom yn dangos eu bod wedi cael eu hadolygu yn ystod y 12 mis diwethaf ac wedi'u cymeradwyo gan staff a wnaeth gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis. Adolygwyd y ddwy ddogfen yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Y Gweithlu

**Gweithlu Medrus a Galluog**
Yn ogystal â'r ddau brif ddeintydd a'r ddau reolwr practis, roedd tîm y practis yn cynnwys wyth deintydd cyswllt, hylenydd, nyrsys deintyddol a derbynyddion.

Cawsom wybod bod cymysgedd sgiliau a nifer y staff yn briodol i gyflawni'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Dywedwyd wrthym na fyddai staff asiantaeth yn cael eu defnyddio, ac y gellir defnyddio staff o'r chwaer bractis yng Nghwmbrân os byddai prinder staff oherwydd gwyliau a salwch.

Roedd enwau'r deintydd a'r gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis i'w gweld yn glir ochr yn ochr â'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Dywedwyd wrthym fod cydymffurfiaeth â gofynion cofrestriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei fonitro gan un o reolwyr y practis.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar gael yn y practis i gynghori'r staff pe bai'r angen yn codi. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod rheolwr y practis a'r rheolwr cofrestredig yn agored ac yn hawdd mynd atynt.

Roedd gan y practis bolisi recriwtio cyfredol a oedd yn nodi'r holl wybodaeth a'r ddogfennaeth y mae angen iddynt fod ar gael mewn perthynas â staff sy'n gweithio mewn practisau deintyddol.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff sy'n gweithio yn y practis, Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) dilys a thystiolaeth (lle y bo'n ofynnol) o yswiriant indemniad, tystiolaeth o gofrestriad cyfredol gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a thystiolaeth o frechiadau.

Gwelsom fod proses sefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff yn y practis. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r practis a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gwelsom ffolder o restrau gwirio a lluniau a oedd yn cael ei ddefnyddio gan y staff newydd i atgyfnerthu adnabyddiaeth o'r cyfarpar a ddefnyddir a dealltwriaeth o'r prosesau.

Gwelsom fod y staff a gyflogir gan y practis yn cael arfarniadau gwaith blynyddol ac wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**
Cafodd amrywiol drefniadau eu disgrifio ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion am eu profiadau o ddefnyddio’r practis gan gynnwys arolygon cleifion, holiaduron Deoniaeth Cymru ac adolygiadau Google. Roedd blwch awgrymiadau ar gael yn ardal aros y cleifion ar y llawr gwaelod.

Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw adborth yn cael ei asesu, ei ddadansoddi a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm. Gwelsom fanylion o gamau'n cael eu cymryd o ganlyniad i adborth yn cael ei harddangos ar y teledu arddangos yn yr ardal aros ar fformat 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'. Gwelsom fod y practis wedi rhoi sawl gwelliant ar waith o ganlyniad, gan gynnwys gweithredu gwasanaeth atgoffa a phrynu cadeiriau â breichiau i'r ardaloedd aros er mwyn helpu cleifion â phroblemau symudedd.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno ysgrifenedig gyfredol ar waith er mwyn rheoli cwynion am y gofal deintyddol a ddarperir yn y practis. Roedd hon i'w gweld yn yr ardaloedd aros ac roedd yn cynnwys manylion y rheolwr cwynion ac yn nodi'r amserlen ymateb ddisgwyliedig. Roedd manylion sefydliadau eraill y gallai'r

cleifion fynd atynt am help a chymorth hefyd wedi'u cynnwys. Gwelsom hefyd bosteri Gweithio i Wella yn cael eu harddangos.
Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon / cwynion ar ôl triniaeth.

Gwelsom fod cofnodlyfr ar gyfer cofnodi cwynion a wneir i'r practis, yr oedd modd i'r holl staff fynd ati. Dywedwyd wrthym fod y broses ddatrys wedi'i dogfennu drwyddi draw. Gwelsom dystiolaeth o'r broses hon mewn perthynas â'r gŵyn ddiweddaraf a ddaeth i law'r practis.

Gwelsom fod polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith yn y practis a oedd yn rhoi canllawiau ac yn gosod cyfrifoldebau i'r staff. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Dyletswydd Gonestrwydd ac yn dangos dealltwriaeth dda pan gânt eu cwestiynu. Hyd yma, nid oes unrhyw ddigwyddiad lle mae Dyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei arfer.

## Gwybodaeth

**Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol**
Roedd polisi Diogelwch Cleifion ar waith yn disgrifio system i gofnodi digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion. Byddai digwyddiadau o bwys a gwybodaeth am ddiogelwch cleifion yn cael eu cofnodi a'u trafod mewn cyfarfodydd tîm. Byddai trafodaeth tîm cyfan yn llywio cynlluniau ar gyfer gwella a gweithredu lle bo angen.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

**Gweithgareddau Gwella Ansawdd**
Cawsom enghreifftiau o archwiliadau a gafodd eu cynnal fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau o gofnodion y cleifion, pelydrau-X, atal a rheoli heintiau a dihalogi.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wedi cwblhau archwiliadau rhagnodi meddyginiaethau gwrthficrobaidd a rhoi'r gorau i smygu drwy adnodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel rhan o brosiectau cenedlaethol.

## Dull Systemau Cyfan

**Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**

Cafodd trefniadau addas eu disgrifio ar gyfer y broses o ymgysylltu rhwng y practis a gwasanaethau eraill.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu mewn clwstwr gofal iechyd lleol gan alluogi cleifion i gael eu cyfeirio at wasanaethau gofal iechyd eraill fel sy'n ofynnol. Mae hyn yn sicrhau bod gofal iechyd yn cael ei gydgysylltu'n well er mwyn hyrwyddo llesiant y cleifion a'r gymuned ehangach.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Roedd dau o'r pum maint o orchuddion wyneb a argymhellwyd fel rhan o'r cyfarpar brys ar goll.** | Ni allem fod yn sicr y gellid eu defnyddio'n effeithiol mewn argyfwng. | Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith gyda'r uwch-aelodau o'r staff. | Rhai newydd yn cael eu harchebu gan y rheolwr cofrestredig. |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Goodwin Partnership - Porth

## Dyddiad yr arolygiad: 20 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol pellach ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn, heblaw am y rhai a nodwyd yn Atodiad A.** | | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Goodwin Partnership - Porth

## Dyddiad yr arolygiad: 20 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodwyd gennym nad oedd taflenni gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill, megis hawdd eu deall neu ffont mawr, a oedd yn ystyried anghenion y cleifion ag anawsterau darllen.** | Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am ffordd y gall y practis sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion ag anawsterau darllen. | Safon Ansawdd - Teg | Bydd y Practis yn darparu taflenni gwybodaeth allweddol megis Taflen Wybodaeth y Practis, mewn fformat Hawdd ei Ddeall / ffont mawr. | Rheolwr Cofrestredig - Jessica Anthony | Erbyn diwedd Ionawr 2024 |
| **Nodwyd gennym fod yr arwydd ar gyfer yr allanfa dân ar y llawr cyntaf wedi'i leoli y tu mewn i'r ddeintyddfa ac felly ddim ond yn weladwy pan fo'r drws yn agored.** | Rydym yn argymell y dylai'r rheolwr cofrestredig leoli'r arwyddion allanfa dân fel eu bod yn weladwy pan fo drws y feddygfa ar gau. | Rheoliad 22(4)(b) | Ers Arolygiad AGIC rydym wedi gosod arwydd Allanfa Dân y tu allan i ddrws Deintyddfa 6 | Rheolwr Cofrestredig - Jessica Anthony | Wedi'i gwblhau 2 Hydref 2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodwyd gennym fod angen mwy o fanylder ar gynllun triniaeth y cleifion mewn perthynas â'r driniaeth a ddarperir.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod mwy o fanylder yn cael ei gofnodi yn y cynlluniau triniaeth fel rhan o gofnodion y cleifion. | Rheoliad 20(1)(a)(i) | Rydym yn anelu i sicrhau fod digon o fanylder wedi'i gofnodi ar gyfer cynllunio triniaeth yn y GIG a thriniaethau preifat a bod y manylder hwn yn gyson ymysg pob aelod o'r staff.<br><br>Rydym wedi trafod cofnodi cynllun y triniaethau mewn mwy o fanylder yng Nghyfarfod Staff y Practis yn dilyn yr arolygiad. Rydym yn bwriadu archwilio'r agwedd hon ar gofnodi mewn tri mis i asesu a oes gwelliannau wedi cael eu gwneud. | Rheolwr Cofrestredig - Jessica Anthony | Trafodwyd gwelliannau ar 27 Medi. Dyddiad archwiliad Ionawr 2024. |
| **Er ein bod wedi gweld tystiolaeth archwiliadau meinweoedd meddal, nid oedd cofnodion cyson o brofion sgrinio canser y geg wedi cael eu cyflawni.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff profion sgrinio canser y geg eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion. | Rheoliad 20(1)(a)(i) | Bydd yr ymarferwyr yn cynnwys mwy o fanylder yn y cofnodion mewn perthynas â phrofion sgrinio canser y geg sy'n cael ei gyflawni yn ystod yr archwiliadau. Bydd hyn yn cael ei adolygu mewn archwiliad ymhen tri mis. | Rheolwr Cofrestredig - Jessica Anthony | Trafodwyd gwelliannau ar 27 Medi. Dyddiad archwiliad Ionawr 2024 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwelsom nad oedd dewisiadau iaith y cleifion yn cael eu cofnodi yng nghofnodion cleifion, a allai ei gwneud hi'n anodd darparu gofal effeithiol ac wedi'i deilwra at yr unigolyn.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi yng nghofnodion cleifion. | Rheoliad 13(1)(a) | Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rhoi gofal cleifion yn unigol ac yn y 4-6 mis diwethaf rydym wedi cofnodi dewis iaith y cleifion yn eu nodiadau. Fel sydd wedi'i nodi yn ystod yr arolygiad mae hwn yn faes sydd angen ei wella ymhellach ac mae angen mwy o gysondeb ymysg yr ymarferwyr. Byddwn yn adolygu a yw dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi'n ddigonol mewn archwiliad cadw cofnodion mewn tri mis. | | Trafodwyd y gwelliannau sydd angen eu gwneud ar 27 Medi. Caiff archwiliad cadw cofnodion ei gynnal ym mis Ionawr 2024 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Jessica Anthony**

**Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig / Pennaeth y Practis**

**Dyddiad: 9/11/23**